Medr

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

# Y Cod Ymgysylltu â Dysgwyr

## Briff i'r sector: y chweched dosbarth mewn ysgolion

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg |
This document is also available in English
**www.medr.cymru**

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

## Rhagair

O dan Adran 129 o Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022, mae gan Medr gyfrifoldeb statudol i gyhoeddi Cod Ymgysylltu â Dysgwyr ynghylch cynnwys dysgwyr ym mhroses benderfynu eu darparydd. Mae hyn yn cynnwys cyfleoedd i ddysgwyr:

- gymryd rhan ym mhroses eu darparydd o wneud penderfyniadau perthnasol;
- cael cynrychiolaeth effeithiol i'w lleisiau ym mhroses benderfynu eu darparydd; a
- rhoi eu barn ar yr addysg maen nhw'n ei derbyn a materion sy'n destun pryder, neu o ddiddordeb iddynt.

Cynhaliodd Medr ymgynghoriad ar ddrafft y Cod Ymgysylltu â Dysgwyr yn nhymor yr hydref 2025, a chyhoeddi'r Cod terfynol ym mis Ebrill 2026. Mae'r Cod yn berthnasol i bob darparydd yn y sector addysg drydyddol yng Nghymru: sefydliadau addysg bellach ac uwch, darparwyr prentisiaethau, darparwyr dysgu oedolion yn y gymuned, ac **ysgolion sy'n cynnwys** chweched **dosbarth.** O dan Adran 101 o'r Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil, **rhaid** i gorff llywodraethu ysgol a gynhelir sy'n cynnwys chweched dosbarth gydymffurfio â gofynion y Cod.

Wrth inni ymgynghori a chynnal trafodaethau ehangach â'r sector trydyddol, gofynnodd darparwyr inni sicrhau bod y Cod yn cael ei deilwra i gyd-fynd â'r amrywiaeth eang iawn o sefydliadau a dysgwyr a geir yng ngwahanol rannau o'r sector. Rydym wedi datblygu'r briff hwn fel rhan o gyfres o ddeunyddiau cyfeiriol sy'n gosod y Cod yn ei gyd-destun ym mhob rhan o'r sector trydyddol. Mae hefyd yn darparu gwybodaeth ymarferol ynghylch sut rydym yn disgwyl i'r Cod gael ei weithredu a'r dystiolaeth ar ei gyfer. Dylid ei ddarllen ochr yn ochr â'r Cod ei hun, sy'n nodi gofynion penodol y mae'n rhaid i bob darparydd eu bodloni a'r dystiolaeth y mae'n rhaid ei darparu i Medr er mwyn dangos cydymffurfiaeth.

Byddwn yn parhau i adolygu'r briff hwn i adlewyrchu'r adborth gan ddysgwyr a darparwyr, ac i ychwanegu adnoddau ac enghreifftiau pellach wrth iddynt gael eu datblygu.

## Ar gyfer pwy mae'r briff hwn?

- Penaethiaid ysgolion sy'n cynnwys chweched dosbarth, penaethiaid y chweched dosbarth a llywodraethwyr ysgol
- Staff yr awdurdod lleol sy'n gyfrifol am gefnogi gwelliannau mewn ysgolion a threfniadau llywodraethu ysgolion
- Disgyblion y chweched dosbarth, gan gynnwys y rhai mewn rolau cynrychioliadol drwy gynghorau ysgol a/neu ddisgybl-lywodraethwyr cysylltiol

## Cyd-destun y sector: Y Chweched Dosbarth

Mae'n ofynnol i gorff llywodraethu pob ysgol a gynhelir yng Nghymru, ac eithrio ysgolion meithrin a babanod a gynhelir, sefydlu cyngor ysgol. Mae aelodaeth cynghorau ysgol yn rhychwantu pob grŵp blwyddyn, ac nid yw'n ofynnol nac yn ddisgwyliedig i ysgolion sefydlu cyngor ar wahân ar gyfer disgyblion y chweched dosbarth er mwyn bodloni gofynion Cod Ymgysylltu â Dysgwyr Medr. Yn hytrach, dylai ysgolion ystyried sut y gallant ddefnyddio'r strwythurau cynrychioli sydd ganddynt eisoes i sicrhau bod

disgyblion y chweched dosbarth yn cael eu cynnwys yn briodol mewn penderfyniadau; ac ystyried a oes angen strwythurau neu brosesau ychwanegol arnynt i ymgysylltu â'r disgyblion hyn.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi canllawiau statudol i gyrff llywodraethu ar sefydlu a gweithredu cynghorau ysgol. Mae Cod Ymgysylltu â Dysgwyr Medr yn cyflwyno gofyniad statudol ychwanegol i ysgolion weithio gyda'u disgyblion chweched dosbarth i ddatblygu, cyhoeddi a pharhau i adolygu ymrwymiad ffurfiol i ymgysylltu â dysgwyr. Bydd Medr yn gweithio gydag ysgolion er mwyn helpu i sicrhau dealltwriaeth glir o'n gofynion, ac y gellir, wrth gydymffurfio â'r Cod, ategu a gwella'r hyn y mae ysgolion eisoes yn ei wneud i ymgysylltu â disgyblion.

Er nad oes unrhyw ofyniad rheoliadol i awdurdodau lleol gydymffurfio â'r Cod Ymgysylltu â Dysgwyr ar gyfer y chweched dosbarth mewn ysgolion, bydd Medr yn gweithio gyda thimau awdurdod lleol i gydlynu ymgysylltu a chyfathrebu ag ysgolion a'u llywodraethwyr i gefnogi a sicrhau cydymffurfiaeth yr ysgolion hynny.

## Gofynion y Cod

Gofynion ar gyfer 2026 - 2027

- **Rhaid** i ysgolion sy'n cynnwys chweched dosbarth gyhoeddi ymrwymiad i ymgorffori a chefnogi ymgysylltiad effeithiol â dysgwyr wrth wneud penderfyniadau cyn diwedd y flwyddyn academaidd
- **Rhaid** i hwn gydymffurfio ag egwyddorion Y Cod
- Tystiolaeth yn ofynnol drwy'r Ffurflen Sicrwydd Flynyddol (Hydref 2027)

Gofynion o 2027 - 2028

- **Rhaid** i ysgolion sy'n cynnwys chweched dosbarth adolygu'r ymrwymiad yn flynyddol
- **Rhaid** i ysgolion sy'n cynnwys chweched dosbarth ddarparu tystiolaeth o effaith ymgysylltu â dysgwyr
- Tystiolaeth yn ofynnol drwy'r Ffurflen Sicrwydd Flynyddol (o Hydref 2028)

Llywodraethu

- **Rhaid** i'r corff llywodraethu (neu'r corff cyfatebol) gadarnhau cydymffurfiaeth yn flynyddol
- Sicrwydd yn ofynnol drwy'r Ffurflen Sicrwydd Flynyddol (o Hydref 2027)

Dysgwyr

- **Rhaid** i ddysgwyr gymryd rhan yn y gwaith o ddatblygu ac adolygu'r ymrwymiad
- **Rhaid** hyrwyddo'r ymrwymiad mewn ffyrdd sy'n hygyrch i ddysgwyr

Mae'n **rhaid** i'r ymrwymiad gynnwys:

- Sut y caiff ymgysylltu â myfyrwyr ei ymgorffori a'i gefnogi wrth wneud penderfyniadau

- Sut yr aeth y corff sy'n cynrychioli dysgwyr ati i gyd-ddatblygu (adolygu) yr ymrwymiad
- Sut mae dysgwyr wedi cymryd rhan yn y gwaith o'i ddatblygu (a'i adolygu)
- Sut y rhoddir ystyriaeth i farn dysgwyr amrywiol
- Pa ddysgwyr sydd wedi'u cynnwys (efallai y bydd rhai ysgolion yn dymuno ymestyn eu hymrwymiadau y tu hwnt i flynyddoedd 12 a 13. Dim ond ymgysylltiad â'r chweched dosbarth y bydd Medr yn ei fonitro)

Lle bynnag y ceir corff sy'n cynrychioli dysgwyr (e.e. cyngor ysgol, cyngor chweched dosbarth) **rhaid** i'r ysgol weithio mewn partneriaeth â'r corff hwnnw i:

- gyd-gynhyrchu'r ymrwymiad
- adolygu'r ymrwymiad yn flynyddol
- ei hyrwyddo mewn modd hygyrch ymhlith dysgwyr drwy sianelau cyrff cynrychioli darparwyr a dysgwyr

**Rhaid** i'r corff sy'n cynrychioli dysgwyr lofnodi'r ymrwymiad i gadarnhau'r gofynion uchod mewn perthynas â gwaith partneriaeth.

## Yr ymrwymiad i ymgysylltu â dysgwyr

Mae'r Cod Ymgysylltu â Dysgwyr yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr weithio gyda'u dysgwyr i ddatblygu a chyhoeddi ymrwymiad i ymgorffori a chefnogi ymgysylltu effeithiol â dysgwyr wrth wneud penderfyniadau, yn unol ag egwyddorion y Cod.

Bwriedir i'r ymrwymiad roi adlewyrchiad clir a gonest o ymgysylltiad presennol dysgwyr wrth wneud penderfyniadau, yn hytrach na datganiad uchelgeisiol o fwriad, a dylid ei ddefnyddio fel offeryn gwella parhaus i gydnabod cryfderau, nodi meysydd i'w datblygu, a mynd i'r afael â bylchau.

**Rhaid** i ysgolion weithio gyda disgyblion y chweched dosbarth ac aelodau chweched dosbarth eu cynghorau ysgol i ddatblygu eu hymrwymiad i ymgysylltu â dysgwyr, i fonitro ei effaith a chynnal adolygiad blynyddol. Cânt ddewis gweithio gyda'u cyngor ysgol ehangach a disgyblion Blwyddyn 11 sy'n bwriadu symud ymlaen i'r chweched dosbarth, er mwyn sicrhau bod amrywiaeth o safbwyntiau a phrofiadau yn llywio'r ymrwymiad.

Gall ysgol ddewis datblygu ymrwymiad cyffredinol i ymgysylltu â dysgwyr sy'n cwmpasu pob grŵp blwyddyn. Er y gallai ymrwymiad o'r fath fod yn berthnasol i'r ysgol gyfan, ni fydd Medr ond yn canolbwyntio ar ddysgwyr y chweched dosbarth wrth fonitro cydymffurfiaeth â'r Cod. Rhaid i dystiolaeth a gyflwynir ddangos sut mae dysgwyr y chweched dosbarth wedi cymryd rhan yn y broses benderfynu a sut mae'r ymgysylltiad hwn wedi effeithio ar brofiadau'r chweched dosbarth ac ansawdd ei ddarpariaeth.

Efallai fod gan rai ysgolion eisoes ddogfen gyhoeddedig, fel siarter, sy'n nodi hawliau'r disgyblion i gymryd rhan mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt. Gellir defnyddio'r ddogfen hon fel ymrwymiad i ymgysylltu â dysgwyr yr ysgol, ar yr amod ei bod yn bodloni'r gofynion a nodir yn y Cod Ymgysylltu â Dysgwyr.

Nid yw Medr yn manylu'n benodol ar strwythur na ffurf yr ymrwymiad ac mae'n cynghori y dylai fod ar y ffurf sy'n fwyaf priodol i bob ysgol a'i disgyblion. Gall hyn gynnwys enghreifftiau symlach neu fwy gweledol o ymgysylltu â dysgwyr, gyda dolenni i ddogfennau ysgrifenedig mwy ffurfiol lle bo angen er mwyn bodloni gofynion y Cod.

## Gall ysgolion ymgysylltu â disgyblion y chweched dosbarth yn effeithiol drwy:

- Sicrhau bod ganddynt fecanweithiau priodol i ymgysylltu â disgyblion Blwyddyn 12 a Blwyddyn 13 wrth wneud penderfyniadau sy'n effeithio ar y cohortau hyn yn benodol, lle nad yw natur ysgol gyfan y cyngor ysgol yn caniatáu ystyriaeth ddigon manwl
- Rhoi cefnogaeth a hyfforddiant i ddisgyblion sydd â rolau cynrychioliadol, gan gynnwys aelodau o'r cyngor ysgol a disgybl-lywodraethwyr cysylltiol
- Cynnwys disgyblion mewn gweithgorau neu bwyllgorau a sefydlir i ddatblygu polisïau, cynllunio gweithgareddau neu gyflawni prosiectau a fydd yn effeithio ar y profiad dysgu
- Creu cyfleoedd i ddisgyblion rannu eu syniadau eu hunain ar gyfer mentrau, polisïau neu brosiectau i'w harchwilio, yn hytrach nag ymgynghori â nhw ar bynciau a benderfynir gan arweinyddiaeth yr ysgol yn unig
- Cefnogi ac annog pwyllgorau a phrosiectau a arweinir gan ddisgyblion
- Sicrhau y gall disgyblion gofnodi, gwerthuso a chymhwyso'r sgiliau a ddatblygir ganddynt drwy rolau cynrychioliadol ar eu CVs ac yn eu ceisiadau i brifysgolion
- Ystyried llwybrau anffurfiol yn ogystal â ffurfiol ar gyfer ymgysylltu, fel teithiau dysgu neu grwpiau ffocws i archwilio materion penodol
- Ystyried sut y gallai disgyblion chweched dosbarth helpu'r cyngor ysgol i weithredu ar raddfa ehangach, er enghraifft drwy arwain gwaith cydlynu'r cyngor neu fentora aelodau iau
- Gweithio gyda disgyblion i feithrin eu hyder mewn dull o wneud penderfyniadau sy'n seiliedig ar hawliau, gan eu helpu i ddeall pa gyfleoedd fydd ar gael yn y dyfodol o ran cyfranogiad a chynrychiolaeth ddemocrataidd (fel cyfleodd drwy undebau myfyrwyr, i ddisgyblion sy'n symud ymlaen i'r brifysgol)

**Gallai enghreifftiau o “benderfyniadau perthnasol” ar gyfer disgyblion y chweched dosbarth gynnwys:**

- Darpariaeth ac amserlen cwricwlwm y chweched dosbarth
- Codau gwisg disgyblion y chweched dosbarth
- Cyfleoedd am weithgareddau cyfoethogi, gweithgareddau allgwricwlaidd a gweithgareddau cymdeithasol fel allgymorth cymunedol a gwaith gwirfoddol
- Penderfyniadau ynghylch argaeledd, cyfleusterau ac addurno mannau cyffredin
- Polisïau'r ysgol ar ddefnyddio technoleg fel deallusrwydd artiffisial, meddalwedd arbenigol neu ffonau clyfar
- Adolygu effeithiolrwydd cyngor ac arweiniad ar gyfer camau nesaf disgyblion, gan gynnwys cefnogaeth ar gyfer ceisiadau prifysgol
- Cyfleoedd am brofiad gwaith

## Dolenni ac adnoddau defnyddiol

**Canllawiau Statudol:**

- Canllawiau i gyrff llywodraethu ar sefydlu a gweithredu cynghorau ysgol, diweddarwyd 2025
- Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru), 2011
- Rheoliadau Cynghorau Ysgol (Cymru), 2005

**Canllawiau a gwybodaeth am arfer da:**

- Y Ffordd Gywir: Dull gweithredu seiliedig ar hawliau dynol plant o ymdrin ag addysg yng Nghymru, 2022
- GYDA’N GILYDD: Creu cyngor ysgol uwchradd cryf sy’n cynrychioli pawb, 2021

Mae Medr wedi comisiynu Plant yng Nghymru i gyflawni prosiect, gan weithio gydag ysgolion a disgyblion y chweched dosbarth i ddatblygu deunyddiau hyfforddi ar gyfer staff, llywodraethwyr a disgyblion i ymgorffori'r Cod Ymgysylltu â Dysgwyr. Dylai ysgolion ddefnyddio'r adnoddau a ariennir gan Medr o'r prosiect hwn, sydd ar gael o fis Medi 2026, i ymgorffori a chefnogi ymgysylltiad effeithiol â dysgwyr wrth wneud penderfyniadau

## Cysylltu â ni

ymgysylltuadysgwyr@medr.cymru

Medr

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

www.medr.cymru

2 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd
CF10 4BZ

2 Capital Quarter
Tyndall Street
Cardiff
CF10 4BZ

Noddir gan
**Lywodraeth Cymru**
Sponsored by
**Welsh Government**